Rhestr Termau

Anghenion addysgol arbennig (AAA)

Diffiniad cyfreithiol, sy'n cyfeirio at blant sydd ag anawsterau neu anableddau dysgu sy'n ei gwneud yn anos iddyn nhw ddysgu neu gyrchu addysg na'r mwyafrif o blant o'r un oed.
(Gwelwyd 12/06/08 www.direct.gov.uk)

Anghenion arbennig

Y term sy'n cael ei ddefnyddio'n fwyaf eang i ddisgrifio plant ag oediad datblygiadol cymedrol neu anawsterau ymddygiad cymedrol.
(Gwelwyd 13.06.08 www.surestart.gov.uk)

Anghenion cymhleth

Mae gan blant sydd ag anghenion cymhleth nifer o anghenion gwahanol - a'r rheiny'n ymwneud â'u hiechyd, eu haddysg, eu lles, eu datblygiad, eu hamgylchedd gartref ac ati - sef anghenion y mae angen cymorth ychwanegol ar eu cyfer gan fwy nag un asiantaeth.
(Gwelwyd 12/06/08 www.everychildmatters.gov.uk)

Anghenion ychwanegol

Mae plant ag anghenion ychwanegol yn derm bras sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r holl blant hynny sydd mewn perygl o gael canlyniadau gwael, fel y maen nhw wedi'u disgrifio yn y Papur Gwyrdd, Every Child Matters. (Y pum canlyniad yn y Papur Gwyrdd yw: bod yn iach; aros yn ddiogel; mwynhau a chyflawni; gwneud cyfraniad cadarnhaol; a sicrhau llesiant economaidd.)

Amcangyfrifwyd bod gan 20-30 y cant o blant anghenion ychwanegol ar ryw adeg yn ystod eu plentyndod, a'r anghenion hynny'n golygu bod angen cymorth ychwanegol gan y gwasanaethau addysg neu iechyd neu'r gwasanaethau cymdeithasol. Gallai hyn fod am gyfnod cyfyngedig, neu ar sail hirdymor.
(Gwelwyd 12/06/08 www.everychildmatters.gov.uk)

Anabledd

Amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu rhywun i gyflawni gweithgareddau beunyddiol arferol.

- Mae 'amhariad corfforol' yn cynnwys amhariad ar y synhwyrau
- Mae 'amhariad meddyliol' yn cynnwys anawsterau dysgu ac amhariad sy'n deillio o salwch meddwl neu sy'n salwch meddwl
- Ystyr 'sylweddol' yw 'mwy nag amhariad mân neu ddibwys'
- Diffiniwyd 'hirdymor' fel 12 mis neu fwy

(Gwelwyd 12/06/08 www.teachernet.gov.uk (mae hyn hefyd yn rhan o Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005))

Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD)

Mae anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD) ac anhwylder diffyg sylw (ADD) yn cyfeirio at amrediad o fathau o ymddygiad problemus sy'n gysylltiedig â chyfnod canolbwyntio gwael. Gallai'r rhain gynnwys byrbwylltra, aflonyddwch a gorfywiogrwydd, yn ogystal â diffyg sylw, ac yn aml maen nhw'n atal plant rhag dysgu a chymdeithasoli'n dda. Weithiau, cyfeirir at ADHD fel anhwylder gorginetig.
(Gwelwyd 13.06.08 www.netdoctor.co.uk)

Anhwylder y sbectrwm awtistaidd

Cyfeirir at hyn yn aml fel awtistiaeth ac mae'n anabledd datblygiadol sy'n para gydol oes. Mae'n effeithio ar sut y bydd rhywun yn cyfathrebu ac yn ymwneud â phobl o'i amgylch.
(Gwelwyd 13.06.08 www.nas.org.uk)

Bagloriaeth Cymru
Cymhwyster i fyfyrwyr 14-19 oed yng Nghymru, sy'n cyfuno datblygiad personol â chymwysterau presennol fel y Safon Uwch, NVQ a TGAU i greu un dyfarniad ehangach sy'n cael ei werthfawrogi gan gyflogwyr a phrifysgolion.
(Gwelwyd 12/06/08 www.welshbaccalaureate.org.uk)

Blog
Talfyriad o'r geiriau Saesneg 'web log' yw hwn ac mae'n golygu gwefan sydd fel arfer yn cael ei chynnal gan unigolyn neu grŵp ac sy'n cynnwys sylwebaeth sy'n cael ei chofnodi'n rheolaidd.
(Gwelwyd 12.06.08 www.en.wikipedia.org)

Breathing Places
Cynllun grantiau bach i'r Deyrnas Unedig gyfan gan y Gronfa Loteri Fawr. Mae wedi'i datblygu ar y cyd â'r BBC i roi cyllid i grwpiau bach sy'n gwella'r amgylchedd lleol.
(Gwelwyd 12/06/08 www.biglottery.org.uk)

Cartrefi Plant Cenedlaethol (NCH)
Mudiad elusennol sy'n helpu'r plant a'r bobl ifanc sy'n fwyaf agored i niwed yn y Deyrnas Unedig dorri drwy anghyfiawnder, amddifadedd ac anghydraddoldeb, er mwyn iddyn nhw wireddu eu potensial llawn.
(Gwelwyd 13.06.08 www.nch.org.uk)

Clwb all-ysgol
Mae clwb all-ysgol yn glwb sy'n rhedeg cyn neu ar ôl y diwrnod ysgol ac yn aml yn ystod gwyliau'r ysgol hefyd.
(Gwelwyd 12/06/08 www.clybiauplantcymru.org)

Clwb gwyliau
Clybiau gwyliau sy'n cael eu rhedeg yn ystod y dydd yng ngwyliau'r ysgol er mwyn sicrhau bod gofal da ar gael i blant tra bydd eu rhieni yn y gwaith.
(Gwelwyd 12/06/08 www.clybiauplantcymru.org)

Coed Cymru
Menter i Gymru gyfan sy'n hybu rheolaeth coetiroedd llydanddail ac sy'n rhoi hwb i ddefnyddio coed caled sydd wedi'i dyfu'n lleol yng Nghymru.
(Gwelwyd 13.06.08 www.coedcymru.org.uk)

Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf
Cynllun sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac sy'n anelu at sefydliadau cymunedol bach yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yng Nghymru.
(Gwelwyd 13.06.08 www.communitiesfirst.info)

Cwmni a Gyfyngir trwy Warant
Gweler yr adran ar Fodelau Rheoli mewn Clybiau.

Cynghrair gwirfoddol lleol
Yn cael ei adnabod hefyd fel y gwasanaeth gwirfoddol, y cyngor gwirfoddol, y cyngor gwasanaethau gwirfoddol. Mae'n fudiad cymorth sy'n helpu unigolion a grwpiau cymunedol i sefydlu a datblygu prosiectau newydd sy'n diwallu anghenion y gymuned leol ac sy'n gwella ansawdd bywyd.
(Gwelwyd 12/06/08 www.wcva.org.uk)

Cylchoedd Chwarae
Grwpiau cymunedol o rieni a phlant cyn-ysgol sy'n cyfarfod er mwyn i'r plant chwarae'n greadigol a chymdeithasoli.

Cymunedau@EiGilydd
Yn helpu pobl yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru i gael gafael ar dechnoleg newydd er mwyn iddyn nhw wireddu eu potensial cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.
(Gwelwyd www.new.wales.gov.uk)

Cynhwysiad
Mae'r term yn cydnabod hawl pob unigolyn i gael ei drin yn gyfartal, ac i gael yr un gwasanaethau a chyfleoedd â phawb arall.
(Gwelwyd 13.06.08 www.disabilityresources.org)

Darpariaeth amlapiol
Yn cael ei ddefnyddio weithiau i gyfeirio at ofal sy'n cael ei ddarparu i blant tair a phedair oed yn union cyn a/neu ar ôl eu lle yn addysg y blynyddoedd cynnar.

Dim Problem
Gwasanaeth gwirfoddoli i fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth.
(Gwelwyd 16.06.08 www.dimprob.org.uk)

Gwasanaethau gwybodaeth plant
Mae'r gwasanaethau gwybodaeth hyn yn darparu gwybodaeth am ofal plant yn ogystal ag amrywiaeth o wybodaeth ychwanegol yn ardal pob awdurdod lleol.

Gwirfoddoli
Ymrwymo amser ac egni er lles y gymdeithas a'r gymuned, a hynny am ddim a thrwy ddewis.
(Gwelwyd 12/06/08 www.wcva.org.uk/volunteering)

Gwirfoddolwyr y Mileniwm
Menter ledled y Deyrnas Unedig sydd wedi'i bwriadu i hybu a chydnabod gwaith gwirfoddol ymhlith pobl ifanc 16-24 oed.
(Gwelwyd 12/06/08 www.wcva.org.uk/volunteering)

Gwobr Dug Caeredin
Rhaglen wirfoddol, anghystadleuol a hyblyg o weithgareddau diwylliannol a gweithgareddau antur i unrhyw berson ifanc beth bynnag ei gefndir neu ei allu.
(Gwelwyd 12/06/08 www.theaward.org.uk)

Integreiddio
Mae'r term yn cael ei ddefnyddio yn aml yn gyfystyr â phrif-ffrydio i gynnwys ymdrechion i symud plant o ddosbarthiadau ar wahân i mewn i'r brif ffrwd.
(Gwelwyd 13.06.08 www.disabilityresources.org)

Menter Iaith
Mudiad gwirfoddol sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r cymunedau i hybu'r Gymraeg.
(Gwelwyd 16.06.08 www.menteriaith.org.uk)

Mudiad Ysgolion Meithrin (MYM)
Mudiad gwirfoddol sy'n anelu at roi cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru fanteisio ar wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg.
(Gwelwyd 16.06.08 www.mym.co.uk)

Mudiadau gwirfoddol
Casgliad o unigolion sy'n cydweithio i gynnal gweithgareddau penodol er lles y gymuned.
(Gwelwyd 13.06.08 www.wcva.org.uk)

NNEB
Mae diploma NNEB mewn nyrsio meithrin yn gymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol, ac sy'n ymdrin â gofal ac addysg plant 0-7 oed.
(Gwelwyd 16.06.08 www.cwdcouncil.org.uk)

Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (EYDCP)
Mae'r partneriaethau hyn, yn ardaloedd yr awdurdodau lleol, yn cynnwys pobl, asiantaethau a sefydliadau sy'n gweithio mewn partneriaeth i wella gofal, addysg a datblygiad yr holl blant yn ardal yr awdurdod lleol.

Plant mewn Angen
Elusen a gafodd ei sefydlu i greu newid cadarnhaol ym mywyd plant a phobl ifanc ddifreintiedig yn y Deyrnas Unedig. Mae'n darparu grantiau ar gyfer prosiectau sy'n helpu plant a phobl ifanc ddifreintiedig.
(Gwelwyd 13.06.08 www.bbc.co.uk/pudsey/charity/grants)

Prifysgol y Plant
Cynllun arloesol sy'n tyfu yn gyflym. Mae'n rhoi gwobrau am gymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol. Mae'n rhan o rwydwaith cenedlaethol o brosiectau Prifysgol y Plant sy'n cael ei arwain gan Brifysgol Plant Cymru.
(Gwelwyd 13.06.08 www.cardiff.gov.uk)

Pwyllgor rheoli gwirfoddol
Gweler yr adran ar Fodelau Rheoli mewn Clybiau.

Safonau Gofal ac Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGCC)
Rôl yr arolygiaeth yw asesu a yw gofal cymdeithasol a gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar yn cyrraedd y safon y mae gan ddinasyddion Cymru yr hawl i'w disgwyl. Mae'n annog y darparwyr i gyrraedd y safonau priodol a'r lefelau ansawdd priodol ac mae'n gweithredu i ddiogelu buddiannau defnyddwyr gwasanaethau.
(Gwelwyd 26/06/08 http://new.wales.gov.uk/cssiwsubsite/cssiw)

Sefydliadau statudol
Mae'r rhain yn cael eu sefydlu, eu rheoleiddio neu eu gorfodi gan ddeddfau a basiwyd gan gorff deddfu, er enghraifft y Senedd, neu er mwyn cydymffurfio â'r deddfau hynny.
(Gwelwyd 13.06.08 www.wcva.org.uk)

Signalong
System i gyd-fynd ag arwyddo, sydd wedi'i seilio ar Iaith Arwyddion Prydain ac sydd wedi'i bwriadu i helpu plant ac oedolion sydd ag anawsterau cyfathrebu, yn gysylltiedig ran amlaf ag anableddau dysgu.
(Gwelwyd 13.06.08 www.signalong.org.uk)

Snap Cymru
Mae'n rhoi gwybodaeth a chymorth i deuluoedd plant a phobl ifanc y mae arnyn nhw neu y gallai fod arnyn nhw anghenion addysgol arbennig. Mae hefyd yn darparu gwasanaeth cyfryngu ar gyfer awdurdodau a hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol, colegau ac unigolion ym mhob agwedd ar y broses o wneud penderfyniadau am anghenion addysgol arbennig.
(Gwelwyd 13.06.08 www.snapcymru.org)

Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB)

Asiantaeth Weithredol i'r Swyddfa Gartref sy'n cynnig cyfle ehangach i weld gwybodaeth am gofnodion troseddol drwy ei gwasanaeth Datgeliadau. Mae'r gwasanaeth hwn yn fodd i gyrff yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol wneud penderfyniadau mwy diogel wrth recriwtio, a hynny drwy adnabod ymgeiswyr a allai fod yn anaddas ar gyfer gwaith penodol, yn enwedig gwaith sy'n cynnwys plant neu oedolion sy'n agored i niwed. Mae llawer o gyrff gwirfoddol yng Nghymru yn defnyddio'r gwasanaeth hwn am ddim drwy Uned Cofnodion Troseddol Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (www.wcva-cru.org.uk)
(Gwelwyd 16.06.08 www.crb.go.uk)

System Gyfathrebu Cyfnewid Lluniau (PECS)

Yn helpu i ddatblygu medrau cyfathrebu, yn enwedig ymhlith plant sydd ag anhwylder sbectrwm awtistaidd neu anawsterau dysgu.
(Gwelwyd 16.06.08 www.callcentre.education.ed.ac.uk)

Tocynnau Teithio Rhatach

Cynllun sy'n cynnig gostyngiadau teithio drwy gyfrwng tocynnau rhatach ar drafnidiaeth gyhoeddus leol i bobl hŷn a phobl anabl.
(Gwelwyd 13.06.08 www.dft.gov.uk)

Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo

Elusen annibynnol a sefydlwyd ym 1999 sydd wedi ymroi i wella ansawdd bywyd pobl yng nghymunedau glofaol Prydain.
(Gwelwyd 13.06.08 www.coalfields-regen.org.uk)

Ymlaen Ceredigion

Yn cefnogi datblygiadau sydd o dan arweiniad y cymunedau lleol ac sy'n diwallu eu hanghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, nawr ac yn y dyfodol.
(Gwelwyd 13.06.08 www.ymlaenceredigion.org.uk)

Ysgol arbennig

Ysgol yn unswydd i blant sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig na all eu hanghenion gael eu diwallu yn narpariaeth y brif ffrwd.
(Gwelwyd 13.06.08 www.dfes.gov.uk)

Ysgol Goedwig Cymru

Cafodd y mudiad hwn ei sefydlu i annog ac ysbrydoli unigolion o unrhyw oed a gallu i dyfu o ran hunan-barch, hunanhyder ac annibyniaeth drwy gyflawni tasgau bach ymarferol, gan ddefnyddio amgylchedd yr awyr agored i ddysgu ac i hybu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o fyd natur.
(Gwelwyd 16.06.08 www.forestschoolwales.org.uk)

Ysgolion Bro

Mae ysgol fro yn un sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau a gweithgareddau, a hynny y tu allan i'r diwrnod ysgol yn aml, er mwyn diwallu anghenion ei disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.
(Gwelwyd 12/06/08 www.wales.gov.uk)